WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Simon Smith
Prif Swyddog Tân
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych LL17 0JJ

**Dyddiad** 19 Mai 2014


Annwyl Simon

**Gwaith Archwilio Perfformiad a Ffioedd 2014-15**

Ysgrifennaf atoch i gadarnhau'r rhaglen o waith archwilio perfformiad yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer 2014-15 a'r ffi gysylltiedig am y gwaith hwnnw. Gwneir y gwaith hwn o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Fel y gwyddoch, y llynedd, cyflwynais raglen gylchol yn seiliedig ar adolygiad manylach o agweddau penodol ar weithgareddau corfforaethol pob blwyddyn. Felly, byddwn yn cynnal adolygiadau o drefniadau rheoli ariannol, rheoli perfformiad a llywodraethu.

Yn ogystal â gwaith archwilio ac asesu yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur, mae dyletswydd arnom i gynnal rhaglen o Astudiaethau Llywodraeth Leol. Eleni, rydym yn bwriadu adolygu sefyllfa ariannol pob Awdurdod yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth hon yn crynhoi gwaith lleol ar sefyllfa ariannol cynghorau ac yn rhoi darlun o gydnerthedd ariannol Cymru gyfan. Yn dibynnu ar eich barn, rydym yn bwriadu cynnwys awdurdodau tân yn y gwaith hwn. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal astudiaeth i olrhain lefelau'r buddsoddiad mewn gwasanaethau tân ac achub dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Unwaith eto, byddem yn gwerthfawrogi eich barn. Nodir yr elfennau hyn ac elfennau penodol ein gwaith archwilio ac asesu yn y tabl isod. Dylid nodi bod rhaglen waith a ffi archwilio perfformiad pob blwyddyn yn cwmpasu un cylch o waith Asesu Gwelliant. Fodd bynnag, gan nad yw'r gwaith hwn yn cyd-fynd yn union â chyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth, mae'n bosibl y bydd y gwaith a wneir i gyflawni ein rhaglen waith flynyddol yn ymestyn dros flynyddoedd ariannol.

| **Gwaith archwilio perfformiad SAC 2014-15** | |
|---|---|
| **Gwaith asesu gwelliant** | |
| **Archwiliad o'r 'Cynllun Gwella'** | Archwiliad o'r gallu i gyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella. |
| **Archwiliad o'r 'Asesiad o Berfformiad'** | Archwiliad o'r gallu i gyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad. |
| **Rheoli Ariannol** | Gwaith ar y sefyllfa ariannol gan ganolbwyntio ar iechyd ariannol, effeithiolrwydd trefniadau pennu cyllideb, systemau llywodraethu ariannol, cynnydd tuag at sicrhau'r arbedion gofynnol a hanes blaenorol o wneud hynny. |
| **Llywodraethu** | Y cwmpas lleol i'w gadarnhau |
| **Rheoli Perfformiad** | Y cwmpas lleol i'w gadarnhau<br><br>Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar waith ansawdd data |
| **Astudiaethau Llywodraeth Leol** | |
| **Cyflawni â llai** | Bydd yr astudiaeth hon yn olrhain lefelau'r buddsoddiad mewn gwasanaethau tân ac achub dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddatblygwyd ar gyfer astudiaeth cyflawni â llai 2013-14 ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd.<br><br>Byddwn yn ymgynghori â chi ynglŷn â'r gwasanaethau i'w cynnwys yn yr astudiaeth hon. Gallai gynnwys meysydd fel gweithgareddau diogelwch cymunedol, gwaith ar ddiogelwch tân busnesau, neu waith swyddogaethol ar ffrydiau gwaith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol, fel |

| | |
|---|---|
| | trafnidiaeth. |
| **Crynodeb o'r sefyllfa ariannol** | Bydd yr astudiaeth hon yn crynhoi gwaith lleol ar sefyllfa ariannol cynghorau ac yn rhoi darlun o gydnerthedd ariannol Cymru gyfan. |

Mae'r tabl isod yn nodi ein ffioedd am waith archwilio perfformiad. Os nodir bod unrhyw waith ychwanegol yn angenrheidiol yn ystod yr archwiliad a'r asesiad, gellir codi ffioedd ychwanegol. Yn yr un modd, os bydd mater yn codi sy'n ddigon pwysig i ni ystyried cynnal arolygiad arbennig fel ymateb priodol iddo, byddwn yn codi ffi ychwanegol am gynnal arolygiad o'r fath.

| **Ffi o fis Ebrill 2014 hyd at fis Mawrth 2015** | **£** |
|---|---|
| Ffi am waith archwilio perfformiad SAC | 15,292 |


Yn ogystal â'r rhaglen waith a nodir uchod, efallai y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud gwaith mewn awdurdodau tân fel rhan o'n rhaglen o astudiaethau gwerth am arian a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried gan ei Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Gan fod llawer o'r astudiaethau hyn yn gorgyffwrdd â rhannau gwahanol o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, efallai y byddant yn berthnasol i'n gwaith mewn awdurdodau tân. Ariennir y gwaith hwn ar wahân drwy gronfa gyfunol Llywodraeth Cymru ac felly ni chodir ffi amdano.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ddyletswydd o dan y Mesur mewn perthynas â chydgysylltu swyddogaethau rheoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol. Nodir ystod y gwaith archwilio perfformiad y bydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol yn ei gyflawni yn fanylach mewn Cynllun Gwaith ac Amserlen a adolygir bob chwarter.

Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn crynhoi ein gwaith ni a gwaith rheoleiddwyr perthnasol, a byddwn yn cyhoeddi adroddiadau (a/neu lythyrau) yn nodi canfyddiadau'r gwaith archwilio ac asesu. Fel sy'n ofynnol o dan y Mesur, caiff y dogfennau hyn eu hanfon at Weinidogion Cymru hefyd. Byddwn hefyd yn rhoi adborth lleol ar ein Hastudiaethau.

Os byddwch yn dymuno trafod unrhyw elfen o'r gwaith hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Lisa Williams (lisa.williams@wao.gov.uk).

Yn gywir



Jane Holownia
Cyfarwyddwr Grŵp SAC